

DOGFEN 3

DC/EM/05227/19: Nodyn Cyfarfod

Cyfarfod: Comisiynydd y Gymraeg a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

1 Ebrill 2019, Swyddfa'r Gweinidog, Tŷ Hywel.

Yn bresennol: Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

Swyddogion Llywodraeth Cymru: *[Enw Swyddog], [Enw Swyddog], [Enw Swyddog]*

1. Croesawodd y Gweinidog Aled Roberts i'w gyfarfod cyntaf fel Comisiynydd y Gymraeg gan ddweud ei bod hi'n falch iawn o gael ei gyfarfod ar ei ddiwrnod cyntaf yn y swydd. Dywedodd y Gweinidog bod hi'n disgwyl ymlaen i gael cydweithio gydag Aled yn ystod y cyfnod cyffrous hwn sydd o'n blaenau.

Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

2. Nododd y Comisiynydd mai 3 aelod sydd ar Banel Cynghori'r Comisiynydd ar hyn o bryd a gofynnodd i'r Gweinidog ystyried penodi dau aelod arall fel bod ganddo Banel llawn i'w gynghori. Nododd bod e'n awyddus i ail edrych ar y ffordd mae'r Panel Cynghori yn gweithio gan weld sut all e ddefnyddio'r Panel i'r ffordd mwyaf effeithiol i'w gynghori ar draws gwaith y Comisiynydd.
3. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n gweld y Panel Cynghori fel rhan bwysig o lywodraethant y Comisiynydd. Wrth atal y cynlluniau i wneud y Bil roedd dod o hyd i ffurf o gryfhau llywodraethant y Comisiynydd yn rhywbeth roedd Gweinidogion wedi ymrwymo i wneud (gan fod y Comisiynydd yn gorfforaeth undyn). Cadarnhaodd y Gweinidog bod hi'n bwriadu penodi dau aelod newydd fel bod gan y Panel yr uchafswm o 5 Aelod.
4. Cyn dechrau'r proses benodi gofynnodd y Gweinidog i Aled ystyried pa arbenigedd a phrofiad roedd e'n chwilio amdano yn yr aelodau newydd. Nododd y Gweinidog bod y Rheoliadau Penodi yn pennu pa arbenigedd a phrofiad roedd eisiau i'r Comisiynydd a'r Panel gael rhyngddyn nhw. Dywedodd Aled y byddai'n ystyried hynny ac yn trafod gyda swyddogion Isadran y Gymraeg. Nododd Aled ei fod yn cyfarfod gyda Meinir Davies, Cadeirydd presennol y Panel Cynghori yn hwyrach yn yr wythnos ac y byddai'n falch o allu adrodd hwn yn ôl iddi hi.

5. PWYNTIAU GWEITHREDU:

- Aled Roberts i gynnal asesiad sgiliau o Aelodau presennol y Panel ac i ystyried pa arbenigedd a phrofiadau mae e'n chwilio amdano mewn aelodau newydd.
- Swyddogion Isadran y Gymraeg i weithio gyda'r Uned Penodiadau Cyhoeddus i lunio amserlen ar gyfer penodi.
- Gofynnodd y Gweinidog i swyddogion i ystyried sut y gallai Panel Cyngori y Comisiynydd weithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda Chyngor Partneriaeth y Gweinidog ac os oedd unrhyw beth yn atal rhywun rhag bod yn aelod o'r ddau banel.

Cytundeb Fframwaith drafft

6. Dywedodd y Gweinidog bod hi'n awyddus i gael Cytundeb Fframwaith newydd yn ei le rhwng y Llywodraeth a'r Comisiynydd. Nododd bod drafft wedi cael ei baratoi a rhannodd y drafft hwnnw gydag Aled yn y cyfarfod. Gofynnodd y Gweinidog i Aled drafod y drafft gyda'i Dim Rheoli a rhoi adborth i swyddogion y Llywodraeth. Dywedodd mai drafft oedd y ddogfen sydd yn rhoi sail i drafodaethau pellach.
7. Nododd y Gweinidog bod rhan weithredol y cytundeb yn debyg i'r Cytundeb Fframwaith newydd sydd yn ei le rhwng y Comisiynydd Plant a'r Llywodraeth, a bod cael cysondeb rhwng y ddau lle mae modd gwneud hynny yn ddymunol. Fodd bynnag, nododd bod rhaid hefyd cael darn arall sy'n nodi pa gorff sy'n gyfrifol am ba waith a bod y darn hwnnw yn rhywbeth byddai rhaid i'r ddau gorff gael trafodaeth agored yn ei gylch. Dywedodd y Gweinidog bod hi'n cydnabod bod rhaid i'r Comisiynydd fod yn gwbl annibynnol o ran y gwaith rheoleiddio ond ei bod hi'n gobeithio bod modd i'r ddau gorff gydweithio o ran prosiectau y tu hwnt i reoleiddio - a hynny er mwyn gweithio tuag at dargedau Cymraeg 2050.
8. Cadarnhaodd [*Enw Swyddog*] bod cyfarfod cwrdd i ffwrdd wedi cael ei drefnu rhwng tимоedd rheoli Isadran y Gymraeg a'r Comisiynydd ar 12 Mehefin ac y byddai trafodaeth yn cael ei gynnal ar y Cytundeb drafft yn y cyfarfod hwnnw. Dywedodd y Gweinidog y byddai Cyngor Partneriaeth y Gweinidog yn trafod pa strwythurau sydd orau i weithredu strategaeth Cymraeg 2050 yn y cyfarfod nesaf ar 9 Ebrill. Dywedodd y byddai croeso i Aled fynychu'r cyfarfod hwnnw.
9. **PWYNTIAU GWEITHREDU**
 - Gwahodd Aled i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Partneriaeth ar 9 Ebrill
 - Tимoedd rheoli'r ddau gorff i gyfarfod ar 12 Mehefin i drafod y Cytundeb Fframwaith drafft
 - Aled i roi adborth i swyddogion y Llywodraeth ar y drafft cyn hynny.

Materion Cyllidol

10. Nododd Aled fod trefniadau cyllidol y Comisiynydd yn achosi pryder iddo fe ac ei fod yn atal rhag llenwi 3 swydd wag tan i'r sefyllfa gyllidol ddod yn gliriach.

Dyweddodd bod canran o'r gyllideb sy'n cael ei wario ar gyflogai yn 76% erbyn hyn ac mai dim ond tua £50,000 sy'n cael ei wario ar brosiectau. Dywedodd hefyd bod yr arian wrth gefn wedi cwmpo yn is na'r £250,000 sy'n ddymunol (£160,000 erbyn diwedd 2019-20) a bod hynny yn fater pryder i Swyddfa'r Archwilydd. Bydd Aled yn cyfarfod gyda'r Swyddfa Archwilio yn fuan i drafod hynny mewn mwy o fanylder.

11. Gofynnodd y Gweinidog i Aled rhoi diweddariad iddi hi yn y cyfarfod chwarterol nesaf gan gynnwys mwy o fanylder am beth mae Swyddfa'r Archwilio yn dweud am sefyllfa'r arian wrth gefn. Dywedodd y byddai'r Llywodraeth hefyd yn gwirio'r rheolau ynglŷn ag arian wrth gefn.
12. Wrth gloi'r cyfarfod diolchodd y Gweinidog i Aled am gyfarfod adeiladol a dywedodd bod hi'n disgwyl ymlaen i weithio gydag e wrth symud ymlaen.